



# Cyfrifydd storio carbon

Wrth i goed dyfu maen nhw'n amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer ac yn ei storio fel carbon yn eu boncyffion, eu gwreiddiau a'u dail. Mae tua hanner pwysau sych coeden yn garbon. Mae hyn yn golygu bod coed yn storfa garbon ac y gallan nhw ein helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd.

Dilynwch y cyfarwyddiadau i gwblhau'r tabl a chyfrifo cyfanswm y carbon sydd wedi ei storio mewn hyd at 3 coeden o wahanol faint.

## Cyfarwyddiadau

### 1 Rhywogaethau

Defnyddiwch daflenni, llyfrau neu apiau adnabod i enwi rhywogaeth y goeden.

### 2 Cylchedd

Defnyddiwch dâp mesur i fesur y pellter o amgylch boncyff y goeden ar uchder o 1.3 metr (tua lefel uchder y frest) i fyny o'r llawr.

### 3 Oedran

Rhannwch gylchedd y goeden gyda'r gyfradd twf er mwyn cyfrifo ei hoed.

Mae coed yn tyfu ar wahanol gyflymder a bydd eu cylchedd yn cynyddu, ar gyfartaledd, tua 2.5cm y flwyddyn.

#### Cyfraddau twf

- Celynnen ac ywen - 1.25cm y flwyddyn
- Derwen - 1.88cm y flwyddyn
- Onnen, ffawydden, llwyfen a chollen - 2.5cm y flwyddyn
- Sycamorwydden - 2.75cm y flwyddyn
- Pinwydden a sbriwsen - 3.13cm y flwyddyn

**Sylwer** Os nad yw rhywogaeth eich coeden ar y rhestr, defnyddiwch gyfradd twf cyfartalog o 2.5cm y flwyddyn.

### 4 Pwysau sych

Defnyddiwch y tabl trawsnewid i drosi cylchedd y goeden i'r pwysau sych. Defnyddiwch y gwerth agosaf yn y tabl i'r un yr ydych wedi ei gyfrifo.

#### Tabl trawsnewid pwysau sych

Cylchedd (cm)	Pwysau sych (kg)
1.5	0.009
2.5	0.04
5	0.23
10	1.4
20	9
30	27



Cylchedd (cm)	Pwysau sych (kg)
40	82
50	106
75	310
100	668
125	1208
150	1964
175	3253
200	4221

## 5 Carbon a storiwyd

Mae hanner pwysau sych y goeden yn garbon, felly bydd angen ichi rannu'r ateb ar gyfer y pwysau sych gyda 2. Mae hyn yn dweud wrthyfch faint o garbon sydd wedi ei storio yn y goeden.

### Enghraifft

Mae cylchedd coeden yn 150cm. O edrych ar y tabl, mae hyn yn golygu bod ei phwysau sych tua 1964kg. Mae rhannu hyn gyda dau yn dweud wrthym fod y goeden yn storio 982kg o garbon.

Cylchedd wedi ei drosi'n bwysau sych  $\div 2$  = carbon wedi ei storio

## 6 Sut fyddwn ni'n cynhyrchu'r swm yma o garbon?

Defnyddiwch y Cardiau adnoddau - Cywerthoedd carbon i ddysgu sut y byddwn yn cynhyrchu'r swm o garbon sydd wedi ei storio yn y goeden.



		Coeden A	Coeden B	Coeden C
1	<b>Rhywogaeth</b>			
2	<b>Cylchedd</b> (cm)			
3	<b>Oedran</b> (cylchedd ÷ cyfradd twf)			
4	<b>Pwysau sych (kg)</b> (gweler y tabl trawsnewid)			
5	<b>Carbon a storiwyd</b> (kg)			
6	<b>Sut fyddwn ni'n cynhyrchu'r swm yma o garbon?</b> (gweler y Cardiau Adnoddau: Cywerthoedd Carbon)			

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
0300 065 3000